

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Fercher,
9 Mai 2018 yn Neuadd Pentref Y Groeslon

Minutes of the Finance Committee held at Groeslon Village Hall,
Wednesday, 9th May 2018 at 7.00pm

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Gerwyn Owen
David Roberts, Clerc/Clerk.

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welome

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Pwyllgor . Cyng. Gerwyn Owen. Diolchodd i'r aelodau hynny oedd wedi gwneud yr ymdrech i fod yn bresennol. Aeth yn syth at y rhaglen.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Hywel J Owen.

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Ni wnaeth yr un aelod na'r Clerc ddatgan buddiant / No declarations made by any member on any items on the agenda

4 Cyfrifon Terfynol a Trefniadau Archwilio Cyfrifon 2017-18 / Final Accounts & Audit Arrangements for 2017-18

Adroddwyd gan y Clerc fod llythyr wedi cyrraedd gan Archwilydd Allanol , BDO LLP gyda gofynion Aarchwiliad 2018, sydd wedi eu hapwyntio gan Lywodraeth Cymru.

Amserlen -

1 – Y Swyddog Ariannol/Clerc yn paratoi Adran 1 a 2

2 - Yr Archwilydd Mewnol yn cwblhau'r Adroddiad Archwilio Mewnol

3 – Y Swyddog Ariannol/Clerc yn ardystio'r ffurflen yn Adran 3 cyn **30 Mehefin 2018** ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r Cyngor.

4 – Y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol o'r Cyngor cyn **30 Mehefin 2018**.

5 - Caiff Adran 3 o'r Ffurflen ei lofnodi a'i ddyddio gan y Cadeirydd yn y cyfarfod. Y Swyddog Ariannol/Clerc yn anfon copi o'r Ffurflen Flynyddol a'r dogfennau wedi eu hardystio y gofynnwyd amdanynt at yr archwilydd allanol a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

6- Yr archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad. Os nad oes ddiwygiadau bydd yr archwilydd yn ardystio Adran 3 ac yn ei ddychwelyd at y Cyngor i'w chyhoeddi. Os oes angen gwneud diwygiadau

bydd yr archwilydd allanol yn dychwelyd y ffurflen at y Cyngor i'w diwygio a'i hail-gymeradwyo. Rhaid anfon eto at yr Archwilydd Allanol.

7- Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol a ardystiwyd erbyn **30 Medi 2018**.

Datganiadau-

Y tro hwn mae'r Archwilydd Allanol yn gofyn i Gynghorau anfon y wybodaeth ganlynol-

Atodiad 1 - i'w gwblhau dim ond os nad oedd trafodion ariannol - ddim yn gymwys i Gyngor Llandwrog

Atodiad 2 - i'w gwblhau oes newid yn y Clerc/ Swyddog ariannol Cyfrifol

Atodiad 3 - Datganiad Blynyddol Llywodraethol Rhan 1 - gofynnir am gopi o'r canlynol

- 1) copi o'r fantolen brwaf / neu tudalen olaf y llyfr arian papur yn dangos cyfansymiau incwm gwariant
- 2) ffotograff yn dangos yr hysbysiad o hawliau etholwyr yn cae ei addangos
- 3) cadarnhad o'r lleoliad
- 4) copi o gofnodion y cyfarfod lle cafod cyfrifon 2015-16 wedi ei harchwilio eu cyflwyno
- 5) tystiolaeth I ddangos bod yr argymhellion gafodd eu gwneud yn dily archwiliad 2015-16 wedi cael eu gweithredu

Copiau o'r uchod (Atodiad 3) i'w harwyddo gan y Clerc a'r Cadeirydd

Atodiad 4 - Datganiad Blynyddol Llywodraethol Rhan 2 –

- 1) Dadansoddiad o'r cronfeydd oedd gan y Cyngor 31/3/17 a 31/3/18 rhwng referniw wedi ei clustonodi, wedi'i dynode, cyfalaf neu arall
- 2) Esboniad o perpas y cronfeydd a phryd y rhagwelir y byddant yn cael eu defnyddio
- 3) Cadarnhad nifer etholwyr ar 1/7/17 a thystiolaeth I gefnogi hyn
- 4) Copi o'r rhestr taliadau Adran 137 a waned yn 2017-18
- 5) Dadansoddiad o unrhyw arian rhodd neu taliadau cyflog gadael gafodd eu gwneud yn ystod y flwyddyn
- 6) Cadarnhad am y manylion unrhyw gronfeydd ar gyfer taliadau aran rhodd
- 7) Oes gan y Cyngor dregniant arian rhodd yn ei le?

Atodiad 5 Amserlen - Hysbysiad cyhoeddus **21/5/18** hyd at **3/6/18** Cofnodion ar gael **4/6/18** hyd at **29/6/18**

Atodiad 6 - checklist

Atodiad 7 - Rhybudd i'r Cyhoedd fod y cyfrifon ar gael rhwng **4/6/18** a **29/6/18**

Atodiad 8 - Hawliadau'r Cyngor - er gwybodaeth

Nodwyd pryderon gan y Clerc am y llwyth gwaith ychwanegol ond roedd y Clerc yn fodlon fod y mwyafrif o'r wybodaeth y gofynnir amdano mewn lle

Argymhelliad i'r Cyngor.

- i) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth uchod.***
- ii) Fod y Clerc yn rhyddhau y cyfrifon i'r Archwiliwr Mewnol sef Cwmni W J Mathews..***

Recommendation to the Council.

- i) For the Council to note the above information.***
- ii) For the Clerk to submit the accounts to the Councils appointed Internal Auditor W J Mathews.***

5 Cyfrifon Terfynol 2017-18 Final Accounts

Dosbarthwyd y dogfennau canlynol i'r aelodau -

- 1 Cyfrif Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018
- 2 Datganiadau Banc i 31 Mawrth 2018
- 3 Cysoniad y Banc i 31 Mawrth 2018
- 4 Crynodeb o'r Balansau i 31 Mawrth 2018
- 5 Ffurflen Flynyddol 2017-18
- 6 Mantolen 2017-18
- 7 – Gwahaniaethau Rhwng 2016-17 a 2017-18

'Roedd yr aelodau wedi derbyn copi cyn cyfarfod trwy e-bost gan y Clerc.

Cafwyd y dogfennau uchod yn gywir ac fe arwyddwyd oll o'r dogfennau gan y Cadeirydd

Cysoniad y Banc i 31 Mawrth 2018 / 31 March 2018 – Bank Reconciliation	
Balansau'r Banc i 31 Mawrth/March 2018 – Balances in the Bank	(£22,601.06)
- Llai Sieciau heb eu cyflwyno / Less Unpresented Cheques	£656.00
- Llai Credydwyd / less Creditors	£1,063.40
+ Dyledwyr / Debtors	(£1,118.86)
Balans yn cario drosodd I 31 Ebrill 2018 / Balance Carried Forward to 1 April 201	(£22,000.52)

Cronfeydd y Cyngor ar 31 Mawrth 2018 / Specific Funds as at 31 March 2018	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reseve Fund	£5,000.00
Arian Wrth Gefn Cronfa Dinas Dinlle – Trosglwyddo i Cyllideb 2018-19 / Dinas Dinlle Footpath Fund – Transfer to 2018-19 Budget	£3,823.00
Blaenoriaeth Gwariant – Cyllideb 2018-19 / Transfer to 2018-19	£710.00
Gwariant Wedi Llithro o 2017-18 / 2017-18 Slippage	
Panel Ymgysylltu / Consulting With The Community	£1,500.00
Lloches Bws Cae'r Moel / Cae'r Moel Bus Shelter	£6,000.00
Adroddiad ar LMynediad Llochesi / Report on Access to Bus Shelters	£2,000.00
Gwaredu Mwsog o Lwybrau Mynwentydd / Work on Cemeteries Footpaths	£740.28
Gwaith Brys Cae Pel-droed Carmel / Urgent Work Carmel Football Field	£660.00
Gwaith Ar Wal Fynwent Carmel / Excess on the Damage to Carmel Cemetery	£100.00
Cyfanswm / Total	£20,533.28
Yn gadael balans heb ymrwymiad / Uncommitted balance	£1,467.24
Cyfanswm / Total	£22,000.52

Cafwyd ambell cwestiwn gan yr Aelodau ynglyn a'r balansau a'r cysoniad

Arwyddwyd oll o'r ddogfennau gan Cadeirydd y Pwyllgor wedi l'r Clerc ymateb i'r cwestiynnau.

Adroddwyd fod y balans sydd yn cario drosodd o £22,000.52 yn ymddangos yn ffigur uchel ond 'roedd **£15,533.28** wedi ei glustnodi fel a ganlyn.

£4,533.00 - Balansau 2017-18 yn trosglwyddo l'r gyllideb ar gyfer datblygiadau 2018-19 = £4,533.00

£11,000.28 - Gwaith wedi llithro o 2017-18 2018-19

£5,000.00 - Arian Wth Gefn

£1,467.24 - Tanwariant 2017-18 ac yn rhydd o unrhyw ymrwymial

£22,000.52 Cyfanswm

Argymhelliad i'r Cyngor.

- i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y wybodaeth uchod.*
- ii) Fod y Cyngor yn nodi y balansau fel a nodwyd ac yn cadw'r tanwariant o £1467.24 yn y balansau hyd nes y bydd Panel Adolygu Gwaith y Clerc wedi wedi cwblhau y gwaith o edrych ar cyflog y Clerc a hyd nes y daw arweiniad ynglyn a penodi Swyddog Diogelu Data i law*

Recommendation to the Council.

- i) For the Council to note the above information.*
- ii) For the Council to note the balances as stated and to leave the underpend of £1467.24 in the balances until the Panel Reviewing the Clerks Work is finalised and until guidance is received regarding the appointment of the Data Safety Officer*

6 Cyllideb 2018-19 / 2018-19 Budget

Trafodwyd Cyllideb 2018-19.

Dosbarthwyd gopi o'r gyllideb ddweddaraf 2018-19 oedd yn cynnwys-

- Cyllideb cychwynol yn dangos gwariant gross o £56,390 yn cael ei ariannu trwy godi incwm o £3,860, defnyddio balansa o £4,530 a codi praesept o £48,000
- Cyllideb wedi ei addasu trwy ddod a £4,530 o'r balansau – yn unol a Penderfyniad y Cyngor 20 Ionawr 2018
- Cyllideb wedi ei addasu a gyfer tender torri gwai a gwagio biniau

Dyweddodd y Clerc ei fod yn rhy gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd gynnal adolygiad manwl o'r gyllideb ond 'roedd angen atgoffa yr aelodau o'r canlynol-

- Y gofyn i benodi Swyddog Diogelu Data – dim cyllieb ar ei gyfer
- Adolygiad telerau ac amodau gwaith y Clerc – arfraniad y swydd yn awgrymu y byddrhaid cynyddu'r cyflog
- £2,000 yn y balansau ar gyfer adroddiad llochesi – cwestiwn yn codi gan y Pwyllgor os ydi hwn yn parhau fel ymrwymiad? Angen ei gyfeirio i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo
- £5,000 yn y gyllideb ar gyfer Datblygiadau - yn bennaf ail-leoli lloches bws Gardd y Coleg, Carmel
- £1,500 yn y balansau ar gyfer Ymgysylltu – yn debygol o fod yn annigonol – cais grant wedi ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru
- £1,467 o danwariant yn 2017-18 heb ei ymrwmo

Argymhelliad i'r Cyngor.

- i) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth gyllidol a gyflwynwyd gan y Clerc ynglyn a cyllideb 2018-19.*
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn yr hynny a nodir uchod am yr ymrwymadau wrth sylweddoli mai dim ond tri mis o'r flwyddyn ariannol sydd wedi mynd heibio a bydd y darlun llawer fwy eglur yn yr adolygiadau nesaf.*
- iii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau i edrych eto ar y penderfyniad o gomisiynnu adroddiad ar mynediad anabal i'r llochesi bws.*

Committee Recommendations.

- i) That the Council accepts the information that was prepared by the Clerk regarding the 2018-19 budget..*
- ii) That the Council accepts the information above regarding commitments whilst noting that it is still early in the financial year and that the Council financial position will be clearer in the next quaterly review.*

iii) For the Council to refer the decision to commission a report on the access to the disabled to bus shelters

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 yr hwyr

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Dyddiad -